Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.4.10 Ffynonellau ariannu ar gyfer prosiectau amgylcheddol

Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi manylion am ffynonellau cyllid posibl ar gyfer cyrff gwirfoddol sy'n ymwneud â phrosiectau amgylcheddol.

Diben y manylion yn y rhestr hon yw rhoi arweiniad cyffredinol – dylech o hyd gysylltu gyda'r ymddiriedolaeth neu'r mudiad priodol am wybodaeth fwy manwl. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr.

Cronfa Gynaliadwyedd yr Ardoll Agregau ar gyfer Cymru

Cyflwynwyd yr Ardoll Agregau gan Ddeddf Cyllid 2001, a ddaeth i rym yn Ebrill 2002. Defnyddiwyd rhan o'r arian a godwyd gan yr ardoll i sefydlu Cronfa Gynaliadwyedd i fynd i'r afael â'r costau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chloddio agregau. Yng Nghymru, defnyddir y Gronfa i ateb problemau sy'n benodol i Gymru:

- I fynd i'r afael â'r etifeddiaeth o hen ganiatadau mwynau.
- I hybu defnyddio deunyddiau eraill yn lle agregau.
- I leihau effaith cloddio agregau.
- I roi manteision amgylcheddol a mwynderol i gymunedau a effeithiwyd gan gloddio agregau.
- I warchod safleoedd o ddiddordeb arbennig.
- Ar gyfer prosiectau addysgol.

Mae cyllid ar gael i brosiectau sy'n mynd i'r afael â'r materion uchod ac sy'n cwrdd â'r meini prawf a nodir yn y pecynnau gwybodaeth. Cynghorir darpar ymgeiswyr i drafod prosiectau arfaethedig cyn cyflwyno cais.

Cyswllt: Llywodraeth Cymru, Uned y Gronfa Gynaliadwyedd, Cynllunio 4c, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 3261 neu 029 2080 1492
Planning.Division@Wales.GSI.Gov.UK

Sefydliad Elusennol Bernard Sunley

Mae'r Sefydliad yn osgoi cyhoeddi ei fod yn cefnogi meysydd diddordeb penodol er mwyn canolbwyntio ar sbectrwm eang o achosion elusennol, ond mae'r rhan fwyaf o'r grantiau a roddir yn disgyn i'r categorïau canlynol: addysg; y celfyddydau; treftadaeth; ieuenctid, cymunedol; amgylchedd/cadwraeth; lles anifeiliaid; iechyd; ymchwil feddygol; tai; lles a hamdden.

Nid oes unrhyw uchafswm grant, ond maen nhw'n amrywio rhwng taliadau unigol o £200 a £5,000. Nid oes angen arian cyfatebol o reidrwydd. Bydd grantiau'n cael eu rhoi i elusennau cofrestredig, gan gynnwys ysgolion, yn y DU.

Cyswllt: Sefydliad Elusennol Bernard Sunley, 20 Berkley Square, Llundain, W1J 6LH
Ffôn: 020 7408 2198
Ffacs: 020 7499 5859
office@sunleyfoundation.com

Biffaward

Mae Biffaward yn darparu cefnogaeth i brosiectau'r DU sy'n darparu neu wella ardaloedd cymunedol i hamdden awyr agored; a phrosiectau sy'n diogelu a gwella bioamrywiaeth. Daw arian y gronfa o gredydau treth tirlenwi, sy'n werth miliynau lawer o bunnau a roddir gan Wasanaethau Gwastraff Biffa. Rheolir Biffaward gan Gymdeithas frenhinol Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt ar ran Biffa. Mae'r cynllun yn amcanu elwa cymunedau lleol yn agos at safle tirlenwi. Darperir arian ar gyfer y pedwar cynllun canlynol: grantiau bach rhwng £250 a £5000; prif grantiau rhwng £5000 a £50,000; prosiectau enfawr rhwng £150,000 a £500,000.

Cyswllt: Y Gymdeithas Frenhinol o Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, The Kiln, Waterside,Mather Road, Newark, Sir Nottingham NG24 1WT
Ffôn: 01636 670000
biffaward@rswt.org
www.biffaward.org

Ymddiriedolaeth Ernest Cook

Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi grantiau i elusennau cofrestredig, ysgolion a mudiadau dielw sydd yn dymuno annog diddordeb pobl ifanc yng nghefn gwlad a'r amgylchedd neu'r celfyddydau (yn ei ystyr ehangaf) neu anelu at godi lefelau rhifedd a llythrennedd.
Mae prosiectau sy'n hybu a neu sicrhau parhad sgiliau a chrefftau gwledig yn dal sylw'r Ymddiriedolwyr.Disgwylir i bob cais gysylltu â'r Cwricwlwm cenedlaethol neu gymwysterau cydnabyddedig eraill.
Ceir rhaglen grantiau mawr am wobrwyon dros £4,000 a rhaglen grantiau bach o dan £4,000, ac maent yn gweithredu drwy gydol y flwyddyn. Ystyrir grantiau bach yn bur aml tra bo'r grantiau mwy yn cael eu hystyried yn y ddau brif gyfarfod a gynhelir gan yr ymddiriedolaeth, a rhaid eu cyflwyno erbyn 31 Ionawr a'r 31 Gorffennaf pob blwyddyn.
Mae'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl ariannwr ar y cyd ac nid yw'r ymrwymo am fwy na blwyddyn.

Cyswllt: Ymddiriedolaeth Ernest Cook,
Y Swyddfa Ystadau, Fairford Park, Fairford, Sir Gaerloyw, GL7 4JH
Ffôn: 01285 712492
grants@ernestcooktrust.org.uk
www.ernestcooktrust.org.uk

Sefydliad Charles Hayward

Mae Sefydliad Charles Hayward yn rhedeg nifer o raglenni grantiau, sy'n cynnwys treftadaeth a chadwraeth, cyfleusterau cymunedol, yr henoed, hosbisau, cyfiawnder troseddol, anghenion arbennig, pobl ifanc mewn perygl, a thramor. Polisi'r ymddiriedolaeth yw cefnogi mudiadau i gyflawni prosiectau sy'n: ataliol neu'n darparu ymyriadau buan; datblygol neu'n arloesol; sy'n hybu neu'n parhau arferion da; sy'n ychwanegu gwerth at wasanaethau presennol.

Rhoddir cyllid tuag at gostau cyfalaf adeiladau, estyniadau, addasiadau, offer a dodrefnu. Mae grant prosiect weithiau'n cael ei roi tuag at gyllid i gychwyn neu ddatblygu prosiect lle nad yw hyn yn rhan o ofyniad refeniw parhaus y prosiect. Fel arfer mae'r grantiau rhwng £1,000 a £20,000.

Cyswllt: Sefydliad Charles Hayward,
Hayward House, 45 Harrington Gardens, Llundain SW7 4JU
Ffôn: 020 7370 7063/7067
www.charleshaywardfoundation.org.uk

Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo

Nodau: Cenhadaeth Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo yw 'hybu a chyflawni adfywio cymdeithasol ac economaidd yn y Meysydd Glo yng Nghymru, Lloegr a'r Alban'.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn nodi ei bod yn cefnogi prosiectau sy'n cyd-fynd ag un neu fwy o'r themâu cyllido canlynol:

- Cymunedau cefnogol, sy'n cynnwys elfennau cyfalaf a refeniw o brosiectau sy'n creu neu'n gwella cyfleusterau cymunedol; sy'n gwella mynediad at wasanaethau gan gynnwys iechyd, a chyngor ar ddyledion a hawl i fudd-daliadau, ac sy'n cefnogi cyfranogiad pobl leol.
- Cymunedau dysgu, sy'n cynnwys gweithgareddau i bobl o bob oed ar gyrsiau achrededig neu beidio, ar yr amod eu bod yn ychwanegol at ddarpariaeth statudol. Mae'n cynnwys blynyddoedd cynnar, gweithgareddau y tu allan i'r ysgol a gwersylloedd haf, gwaith ieuenctid a chynlluniau mentora a gwirfoddoli.
- Cymunedau mentrus, i gefnogi datblygiad grwpiau gwirfoddol a mentrau cymdeithasol er mwyn cynhyrchu incwm, ac mae'n cynnwys costau sefydlu, datblygu adeiladau ac offer i wella cynaliadwyedd, hyfforddiant busnes a chynlluniau gyda ffocws ar rannu adnoddau a chontractio.
- Cefnogi pobl i ddod o hyd i waith, sy'n ceisio adeiladu ar brosiectau cyflogaeth a gynigir eisoes drwy gefnogi dulliau newydd a lleol o gael pobl i weithio. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau sy'n gwella rhagolygon gwaith pobl drwy gymhorthdal cyflog, sgiliau galwedigaethol a chynlluniau hyfforddi wedi eu teilwrio; cynlluniau sy'n targedu pobl anodd eu cyrraedd; gweithgareddau sy'n troi o gwmpas diwydiannau twf sy'n darparu cynlluniau hyfforddi a gwarantu swyddi; a rhaglenni'r farchnad lafur.

Cymhwyso: Rhoddir grantiau i elusennau, mudiadau gwirfoddol, awdurdodau lleol, asiantaethau a phartneriaethau. Mae grwpiau cymunedol a mudiadau bach yn gymwys os:

- Oes ganddynt gyfansoddiad priodol;
- Oes ganddynt gyfrif banc gyda sieciau'n cael eu llofnodi gan ddau berson o leiaf;
- Ydynt yn cyflwyno cais trefnus wedi'i gostio a fydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i adfywio'r meysydd glo.

Rhaid i ymgeiswyr fod yn ariannol sefydlog, ac ni ddylai fod ganddynt gronfeydd wrth gefn sy'n fwy na chostau rhedeg 12 mis neu'n fwy na phedair gwaith gwerth y swm a ofynnir amdano.

Ceisiadau: Mae canllawiau a ffurflenni cais ar gael o swyddfa Pontypridd yr Ymddiriedolaeth. Gwahoddir ymgeiswyr i drafod eu cynigion gyda'r Rheolwr Adfywio. Mae'r Ymddiriedolaeth yn pwysleisio bod angen cynllunio'r prosiectau'n gynhwysfawr. Mae trefniadau ymgeisio ar wahân ar gyfer:

- Pontio'r Bwlch (grant bach) (£500 i £10,000) – mae angen cyfansoddiad, cyfrifon diweddar, canolwr annibynnol, a disgrifiad o'r prosiect;
- Prif Grant (£10,000 i £100,000) – mae angen gwybodaeth fwy manwl;
- Cynllun Grantiau Menter Gymdeithasol y Meysydd Glo - darparu mentrau cymdeithasol gydag arian grant ar gyfer cyfalaf neu gostau refeniw i helpu twf a datblygiad mentrau cymdeithasol o fewn ardaloedd glofaol. Mae'r cynllun yn dirwyn i ben yn 2012.

Ardaloedd cymwys: Meysydd glo presennol a blaenorol ac, fel eithriad, prosiectau y tu allan i'r ardaloedd hyn a fydd o fudd i ardal maes glo. Gwybodaeth fanwl ar gael o swyddfa'r Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo.

Cyswllt: Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, Uned 7, Swyddfa Forol, Woodland Terrace, Maesycoed, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf CF37 1DZ
Ffôn: 01443 404 455
Ffacs: 01443 408 804
alunt@coalfields-regen.org.uk
www.coalfields-regen.org.uk

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Cyngor Cefn Gwlad Cymru yw corff cynghori'r llywodraeth ar fywyd gwyllt a materion cadwraeth cefn gwlad a morol yng Nghymru. Mae'n hybu'r gwaith o warchod a gwella'r tirlun, cadwraeth bywyd gwyllt a chynefinoedd, cyfleoedd i fwynhau cefn gwlad yn dawel, a dealltwriaeth y cyhoedd o'r amgylchedd.

Mae cymorth Grantiau CCGC yn ceisio cefnogi mudiadau yng Nghymru mewn ystod eang o weithgareddau, o ennill gwybodaeth am fioamrywiaeth i ddarparu amgylchedd

naturiol iach, ac o sicrhau fod gan bobl y cyfleoedd i fwynhau'r cywydd awyr agored i ddatblygiad cynaliadwy economaidd.

Defnyddir y grantiau fel catalydd ac mae CCGC yn edrych am brosiectau sy'n datblygu, arwain ac arddangos, yn ogystal â darparu lles yn syth. Mae'r cynigion a ddatblygwyd mewn partneriaeth a CCGC, ac sy'n cyfrannu tuag at ymdrech ar y cyd, wedi'u blaenoriaethu.

Dylai prosiectau fod o fewn un o'r tri philer grant canlynol:

- Bywyd gwyllt, daeareg a thirlun
- Darparu a hyrwyddo mynediad a hamdden
- Hyrwyddo dealltwriaethau ac ymwybyddiaeth

Rhaid i'r prosiectau ddarparu buddion dan un o'r traws-themau canlynol:

- adfywiad
- iechyd a lles; ac
- adeiladu cynhwysedd o fewn mudiad neu'r sector amgylcheddol

Ni fydd y grantiau fel arfer yn fwy na 50 y cant o gostau'r cynllun.

Cyswllt: Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Maes-y-Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd LL57 2DW
Ffôn: 01248 385560
Llinell Holi 0845 130 6229
enquiries@ccw.gov.uk.
www.ccw.gov.uk

Ymddiriedolaeth Elusennol D'Oyly Carte

Defnyddir incwm yr ymddiriedolaeth i gefnogi achosion elusennol sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau, lles meddygol a'r amgylchedd. Mae'r thema amgylcheddol yn cynnwys: gwarchod cefn gwlad a choedlannau, gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd sydd dan fygythiad neu'n dirywio, cadwraeth yr amgylchedd morol a chadwraeth dreftadol a physgodfeydd cynaliadwy.

Mae'r rhan fwyaf o'r grantiau yn rhai unwaith yn unig, ac yn amrywio rhwng £1,000 a £50,000. Ymrwymir i roi grantiau i elusennau nad ydynt yn mwynhau proffil uchel er mwyn cael effaith sylweddol ar waith yr elusennau hynny. Ystyrir y rhan fwyaf o'r ceisiadau ddwywaith y flwyddyn ym misoedd Gorffennaf a Rhagfyr.

Cyswllt: Ymddiriedolaeth Elusennol D'Oyly Carte, 1 Savoy Hill, Llundain WC2R 0BP
Ffôn: 020 7420 2600.

ENTRUST
Y Gronfa Cymunedau Tirlenwi

Mae'r cynllun grantiau hwn yn rhoi cyfle i weithredwyr tirlenwi gefnogi ystod eang o brosiectau amgylcheddol drwy roi credyd treth o 90% iddynt yn erbyn eu cyfraniadau at brosiectau amgylcheddol. Rhaid gwario'r credydau treth tirlenwi yn unol â'r rheoliadau ar dreth tirlenwi.

Nid yw ENTRUST yn cyllido unrhyw waith o fewn y Gronfa Cymunedau Tirlenwi. Rôl ENTRUST yw rheoleiddio'n unig ac ni all orfodi unrhyw weithredwr tirlenwi i ariannu prosiect arbennig.

Fodd bynnag, mae ganddo gyfrifoldeb i gofrestru, monitro ac archwilio cyrff sydd wedi cofrestru gydag ENTRUST fel Cyrff Amgylcheddol. Mae'r cyrff dosbarthu hyn yn helpu grwpiau eraill i ddefnyddio credydau treth tirlenwi.

Mae nifer o ffyrdd o gael gafael ar gyllid. Nid oes angen i gyrff fod yn elusennol, er bod angen iddynt fod yn ddielw a rhaid defnyddio unrhyw weddill i ariannu amcanion eich mudiad ymhellach.

Cyswllt: ENTRUST, 60 Holly Walk. Royal leamington Spa, Warwickshire, CV32 4JE
Ffôn: 01926 488300 information@entrust.org.uk
www.entrust.org.uk

Amgylchedd Cymru

Mae Amgylchedd Cymru yn bartneriaeth o fudiadau yn y sector gwirfoddol neu'r trydydd sector a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy drwy ddarparu cymorth a chyllid i brosiectau amgylcheddol sy'n canolbwyntio ar wirfoddolwyr. Y partneriaid creiddiol sy'n rhan o'r fenter yw Gwarchodwyr Cefn Gwlad, Canolfan Eco Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru, Cylch, WCVA, Groundwork Wales a Cynnal Cymru-Sustain Wales.

Mae gan Amgylchedd Cymru bump o ffrydiau grant, a ddyfeisiwyd i helpu prosiectau ym mhob cam o'u datblygiad.
Mae dwy o'r ffrydiau hyn ar gael cyn cofrestru, e.e. i brosiectau nad ydynt efallai yn ddigon sefydlog eto i gwblhau'r broses gofrestru. Y rhain yw:

Grantiau Cychwyn: Mae'r rhain yn helpu gyda chostau sefydlu grwpiau gwirfoddol neu gymunedol newydd, fel llogi adeilad, cyhoeddusrwydd neu argraffu, hyfforddiant, yswiriant, costau aelodaeth gyswllt, ac yn y blaen. Uchafswm y grant hwn yw £1,000.

Grantiau Cyn-brosiect: Mae'r rhain yn helpu i dalu am gostau unrhyw astudiaethau neu arolygon sydd angen eu cyflawni cyn y gall y prosiect ddechrau; er enghraifft astudiaethau ymarferoldeb, cynlluniau busnes, arolygon ecolegol neu werthusiadau

cymunedol. Rhaid i'r astudiaethau gael eu cyflawni gan drydydd parti. Uchafswm y grant hwn yw £4,000.

Mae tair o ffrydiau grant eraill gan Amgylchedd Cymru, i brosiectau cofrestredig yn unig.

Grantiau Cymorth Hyfforddiant: Mae'r grantiau hyn ar gael i helpu gyda chostau cyrsiau a chynadleddau hyfforddi. Mae'r costau cymwys yn cynnwys costau teithio, cynhaliaeth a ffioedd cyrsiau. Uchafswm y grant hwn yw £400. Gellir cyflwyno ceisiadau unrhyw adeg.

Grantiau Prosiect: Mae'r grantiau hyn yn helpu i dalu am ddeunyddiau a chyfarpar y prosiect. Uchafswm y grant hwn yw £10,000. Gellir cyflwyno ceisiadau unrhyw adeg.

Grantiau Rheoli: Mae'r grantiau hyn yn helpu i dalu am swyddi newydd ar gyfer prosiectau cofrestredig. Rhaid i'r swyddi fod yn benodol i brosiect ac nid yn rhan o weithgareddau craidd arferol y mudiad. Mae'r grantiau hyn yn amrywio rhwng £1,000 a £12,000. Rhaid derbyn ceisiadau erbyn 15 Hydref ar gyfer grantiau'n dechrau ar 1 Ebrill y flwyddyn ganlynol. Gallwn gynnig cyllid am hyd at uchafswm o chwe blynedd.

Cyswllt: Amgylchedd Cymru, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH
Ffôn: 029 2043 1769
info@environment-wales.org
www.environment-wales.org

Sefydliad Esmée Fairbairn

Sefydliad Esmée Fairbairn yw un o'r sefydliadau grantiau annibynnol mwyaf yn y DU. Mae'r Sefydliad yn rhoi grantiau i fudiadau sy'n ceisio gwella ansawdd bywyd pobl a chymunedau yn y DU, yn bresennol ac i'r dyfodol. Rhoddir grantiau o fewn ddau lwybr:

- Prif gronfa
- Meysydd

Mae'r Sefydliad yn gwahodd ceisiadau gan elusennau cofrestredig neu grwpiau gyda dibenion elusennol. Nid oes dyddiadau cau ar gyfer ymgeisio.

Cyswllt: Sefydliad Esmée Fairbairn, 90, York Way, Llundain N1 9AG
Ffôn: 020 7812 3700
Ffacs: 020 7812 3701
info@esmeefairbairn.org.uk
www.esmeefairbairn.org.uk

Sefydliad Garfield Weston

Mae'r Sefydliad yn darparu arian ar gyfer prosiectau yn y DU ym meysydd cyffredinol: addysg; y celfyddydau; iechyd; yr amgylchedd; cymuned; ieuenctid; crefydd; lles; a chymdeithasol. Does dim blaenoriaethau penodol ar gyfer ariannu a chefnogir ystod eang o weithgarwch elusennol.

Mae'r Sefydliad yn cefnogi elusennau cofrestredig y DU, gan gymwys y rhai hynny gyda statws cofrestredig ac eithriedig (eglwysi, sefydliadau addysgol, ysbytai a chymdeithasau tai).

Cyswllt: Sefydliad Garfield Weston, Weston Centre, 10, Gosvenor Street,
Llundain W1K 4QY
Ffôn: 020 7399 6565
Ffacs: 020 7399 6580
www.garfieldweston.org

Ymddiriedolaeth Elusennol J Paul Getty Ieuengaf

Prif nod yr Ymddiriedolaeth yw ariannu prosiectau a reolwyd yn dda sy'n helpu lliniaru tlodi, cefnogi pobl dan anfantais, ac effeithio newid hirdymor ble nad yw cymorth yn hawdd ei gael oddi wrth arian cyhoeddus neu breifat. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn darparu arian ar gyfer y celfyddydau, ac ar gyfer cadwraeth yr amgylchedd naturiol ac adeiladol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnig dwy lefel o grantiau:

- Prif grantiau rhwng £10,000 a £250,000 dros gyfnod o un i dair blynedd
- Grantiau bach hyd at £5,000 ar gael i elusennau llai.

Ar hyn o bryd, mae'r brif ffocws ar gefnogi elusennau cofrestredig yn Lloegr, ond ystyrir ceisiadau gan rannau eraill y DU os yw'r prosiect yn debygol o fod o arwyddocâd cenedlaethol.
Cyswllt: Y Gweinyddwr,
Ymddiriedolaeth Elusennol J Paul Getty Ieuengaf, 1 Park Square West,
Llundain NW1 4LJ
Ffôn: 020 7486 1859
www.jpgettytrust.org.uk

Sefydliad Sainsbury – Ymddiriedolaeth Elusennol JJ

Un o'r prif feysydd ffocws yn gyffredinol yw'r amgylchedd. Y prif feysydd diddordeb yw:

- Addysg amgylcheddol yn y DU, yn enwedig prosiectau sy'n dod o hyd i ffyrdd ymarferol i gynnwys plant a phobl ifainc; bioamrywiaeth ac amaeth cynaliadwy; a thrafnidiaeth gynaliadwy, effeithlonrwydd egni ac egni adnewyddadwy (mae rhai grantiau ar y cyd gydag Ymddiriedolaeth Mark Leonard).

- Prosiectau amgylcheddol tramor, yn enwedig mentrau amaeth yn seiliedig ar y gymuned, sy'n ceisio helpu pobl i helpu eu hunain mewn ffordd gynaliadwy ac amgylcheddol.

Nid oes rheolau ynghylch sut fath o fudiad a allai fod yn gymwys i dderbyn cyllid, er bod yn well gan Ymddiriedolaethau Sainsbury waith newydd, arloesol ac anghyffredin fel rheol.

Cyswllt: Sefydliad Sainsbury – Ymddiriedolaeth Elusennol JJ, Allington House, 1st Floor, 150 Victoria Street, Llundain SW1E 5AE
Ffôn: 020 7410 0330

Mae manylion am Ymddiriedolaethau Sefydliad Sainsbury eraill sydd â diddordeb mewn materion amgylcheddol, h.y. Ymddiriedolaethau Elusennol Ashden, Headley, Linbury, Mark Leonard, Monument, Staples, Tedworth Elusennol a Woodward, hefyd ar gael o'r cyfeiriad uchod.

Ymddiriedolaeth Elusennol Will

Mae'r Ymddiriedolaeth hon yn bodoli i roi cymorth ariannol i fudiadau elusennol os yw eu gweithgareddau'n disgyn i bedwar prif gategori, tri ohonynt yn ymwneud ag iechyd, a'r pedwerydd yn ymwneud â chadwraeth cefn gwlad Prydain gan gynnwys ei fflora a'i ffawna.

Mae'r grantiau'n amrywio ond fel arfer yn yr ystod £5,000 hyd at £20,000. Anogir ymgeiswyr, yn enwedig rhai sy'n ymgeisio am y tro cyntaf, i gysylltu â'r ymddiriedolaeth cyn gwneud cais. Y dyddiad cau blynyddol ar gyfer ceisiadau cadwraeth yw 31 Awst.

Cyswllt:
Ymddiriedolaeth Elusennol Will, Sunbury International Business Centre, Brooklands Close, Windmill Road, Sunbury on Thames, Middlesex,
TW16 9DX
Ffôn: 01932 724 148
Ffacs: 01932 724200
admin@willcharitabletrust.org.uk
www.willcharitabletrust.org.uk

Cronfa Gymunedol ar gyfer Pentrefi'r DU

Sefydlwyd y Gronfa Gymunedol ar gyfer Pentrefi'r DU yn 2001 i ddathlu pen-blwydd y wefan leol, gymunedol a chenedlaethol, UKVillages.co.uk, yn flwydd oed, a thrwy hynny i helpu grwpiau bach sy'n gweithio wrth galon eu cymuned. Yn flaenorol, rhoddwyd grantiau i brosiectau amgylcheddol sy'n nodweddiadol o'r math o brosiectau sy'n debygol o gael eu cyllido. Mae canran o'r refeniw a gynhyrchir gan UKVillages.co.uk yn mynd i'r Gronfa Gymunedol sydd yna'n cael ei chwyddo gan

ffrindiau, noddwyr a chefnogwyr. Mae grantiau o'r Gronfa'n cael eu dyrannu ddwywaith y flwyddyn – 10 Ebrill a'r 10 Hydref. Grantiau rhwng £50 a £300.

Dim ond grwpiau sydd wedi hysbysebu eu gweithgareddau ac wedi cofrestru yn adran Societies and Groups ar y wefan UKVillages.co.uk sy'n cael gwneud cais. Dim ond drwy'r wefan y gellir gwneud cais.

Cyswllt:
www.ukvillages.co.uk

Sefydliad Woodroffe Benton

Mae'r Sefydliad yn rhoi blaenoriaeth i: cymorth ariannol i rai mewn angen o ganlyniad i drychineb neu oherwydd amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd; i ddarparu gofal i bobl sâl ac oedrannus; i hybu addysg; i warchod a gwella'r amgylchedd. Rhaid i fudiadau cymwys fod yn elusennau cofrestredig wedi eu lleoli yn y Deyrnas Unedig. Mae'r grantiau fel arfer rhwng £700-£1,000 ac mae'r ymddiriedolwyr yn cyfarfod yn chwarterol i ystyried ceisiadau ym misoedd Ionawr, Ebrill, Gorffennaf a Hydref.

Cyswllt: Yr Ysgrifennydd, Sefydliad Woodroffe Benton, 16 Fernleigh Court, Harrow, Middlesex HA2 6NA
Ffôn: 020 8421 4120
alan.king3@which.net

Ymddiriedolaeth Elusennol Woodward

Un o Ymddiriedolaethau'r Teulu Sainsbury sy'n rhannu'r ochr weinyddol ond sy'n gweithredu'n hollol wahanol i'r rhan fwyaf o'r lleill yn y grŵp drwy roi nifer fawr o grantiau bach mewn ymateb i gais agored.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn rhoi tri math o grant:

- Grantiau mawr dros £5,000.
- Grantiau bach rhwng £100 - £5,000.
- Grantiau cynlluniau i blant dros yr haf rhwng £500 - £2,000.

Mae'n well gan yr Ymddiriedolwyr brosiectau bach lleol. Rhoddir cyllid yn bennaf i brosiectau unwaith yn unig, ond mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon ystyried costau craidd.

Mae prosiectau amgylcheddol yn derbyn grantiau lle mae elfen addysgol gref ar yr amod eu bod yn wahanol ac nid yn rhan o'r norm arferol.

Cyswllt: Ymddiriedolaeth Elusennol Woodward, Allington House, 1st Floor, 150 Victoria Street, Llundain, SW1E 5AE
Ffôn: 020 7410 0330
Ffacs: 020 7410 0332
contact@woodwardcharitabletrust.org.uk

www.woodwardcharitabletrust.org.uk

Arian i Bawb Cymru gan y Loteri Genedlaethol

Rhaglen grantiau gan y Loteri Genedlaethol i gymunedau lleol. Mae grantiau rhwng £500 a £5,000 ar gael i brosiectau sy'n cynnwys pobl yn eu cymuned leol, sy'n dod â nhw at ei gilydd ar gyfer ystod o weithgareddau treftadol, elusennol, iechyd, addysgol, amgylcheddol a chymunedol eraill.
Mae'r rhaglen yn barod i gyllido prosiectau a fydd wedi eu cwblhau ymhen 12 mis gan grwpiau di-elw, cynghorau tref a chymuned, ysgolion neu gyrff iechyd.

Cyswllt: Awards for All (Wales), 2il Lawr, Tŷ Ladywell, y Drenewydd, Powys, SY16 1JB
Ffôn: 0845 4 10 20 30
Ffacs: 01686 622458
enquireis.wales@biglotteryfund.org.uk
www.awardsforall.org.uk/wales

Cronfa Dreftadaeth y Loteri – Cynlluniau Grantiau Treftadaeth

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn helpu cymunedau ledled y DU i warchod ac agor eu cefn gwlad, parciau a gerddi a gwneud cyfraniad hanfodol i warchod natur. Yn arbennig, mae eisiau annog prosiectau'n ymwneud â thir a chefn gwlad sydd o bwysigrwydd eithriadol, yn enwedig os ydynt mewn perygl.

Mae'r Gronfa hefyd yn annog prosiectau strategol sydd eisiau gwella ardal gyfan neu fath arbennig o dirlun. Mae grantiau ar gael i brynu, gwarchod a rheoli tir o sy'n bwysig oherwydd ei werth golygfaol, hanesyddol, bywyd gwyllt, diwylliannol neu leol. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn taro cydbwysedd priodol rhwng cadwraeth a mynediad. Mae grantiau hefyd ar gael i barciau a gerddi hanesyddol ac i feysydd glas trefol eraill. Yn enwedig, mae'r Gronfa eisiau rhoi grantiau ar gyfer parciau trefol i helpu i adfywio ardaloedd difreintiedig.

Cyswllt: Suite 5A, Hodge Hall, Guildhall Place, Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1DY
Ffôn: 029 2034 3413
Ffacs: 029 2034 3427
wales@hlf.org.uk
Llinell gymorth HLF: 0207 591 6000
enquire@hlf.org.uk
www.hlf.org.uk

Cynllun Grantiau Mentrau Dinesig (Treftadaeth)

Cymorth i brosiectau sy'n helpu i warchod, harddu neu wella'r amgylchedd ffisegol mewn trefi yng Nghymru, ac i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o dreftadaeth Cymru.

Gweinyddir y cynllun gan Cadw, sef adran amgylchedd hanesyddol Llwyodraeth Cymru. Telir grantiau fel cyfraddau hyd at 50% cost y prosiect yn amodol ar uchafswm grant o £5,000 a lleiafswm grant o £150.

Cyswllt: Cynllun Grantiau Mentrau Dinesig (Treftadaeth), Cadw: Henebion Cymru, Plas Carew, Uned 5/7 cefn Coed, Parc Nantgarw, Caerdydd CF15 7QQ
Ffon: 01443 336000
Ffacs: 01443 336001
cadw@wales.gsi.gov.uk
www.cadw.wales.gov.uk

Gwobr Gwlypdir Byw RSPB / CIWEM

Mae'r wobr yn cydnabod prosiectau amlswyddogaethol sy'n arddangos defnydd cynaliadwy cynefinoedd gwlypdir yn y DU. I fod yn gymwys, rhaid i'r prosiectau gyfrannu at draddodi rhywogaethau 'Biodiversity Action Plan' (BAP) y DU. Bydd yr enillydd yn derbyn £1,500 i ariannu ymhelaethu ar dargedau BAP yn y DU.

Cyswllt: CIWEM, 15, John Street, Llundain WC1N 2EB
Ffôn: 0207 831 3110
Ffacs: 0207 405 4967
awards@ciwem.org
www.ciwem.org.uk

Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm

Dyma grantiau i fudiadau gwirfoddol er mwyn cefnogi chwaraeon, celf, y gymuned a'r amgylchedd. Dyma'r tri rownd ar wahân ar gyfer pob categori:

Rhanbarthol: i fudiadau sydd yn gwasanaethu rhanbarth yng Nghymru neu awdurdod Lleol, a gellir gwneud cais am hyd at £7,500.

Lleol: i fudiadau sydd yn gwasanaethu eu cymuned neu dref lleol, a gellir gwneud cais hyd at £2,500.

Cenedlaethol: i fudiadau sydd yn gwasanaethu Cymru gyfan, a gellir gwneud cais hyd at £12,500.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn annog ceisiadau parthed ailgylchu, datblygu mannau gwyrdd, datblygu a hyrwyddo ymarferion gwyrdd a hyrwyddo cynlluniau trafnidiaeth

gyhoeddus. Bydd y prosiectau yn gwella ansawdd amgylchedd Cymru, yn diogelu a chreu cefn gwlad fywiog, a bydd datblygu a hyrwyddo cynllunio tir cynaliadwy yn flaenoriaeth i'w gefnogi.

Anelir at ariannu rhaglenni sydd yn diogelu a gwella treftadaeth naturiol Cymru, a hyrwyddo ei ddefnydd cynaliadwy a mwynhad mewn ffordd sy'n cyfrannu at ffyniant economaidd lleol a chynhwysiant cymdeithasol.

Cyswllt: Swyddfa'r Ymddiriedolaeth,
Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm, d/o Fusion, Loft 2, Ocean House, Heol Clarence, Caerdydd CF10 5FR.
Ffôn: 02920 494 963
Ffacs: 02920 494 964
www.millenniumstadiumtrust.co.uk
MSCT@ fusionuk.org.uk

Grantiau Grŵp Trefi Taclus

Mae hwn yn rhoi pŵer i bobl Cymru i gymryd cyfrifoldeb am eu hamgylchedd lleol. Mae'r **Cynllun Grantiau Grŵp** yn ceisio sefydlu a datblygu grwpiau cymunedol drwy Gymru gyfan a fydd yn gweithio tuag at gwrdd ag anghenion cymunedau lleol drwy fabwysiadu ardaloedd yn y gymuned leol a gweithredu ar brosiectau gwella ymarferol. Gall grwpiau gwirfoddol llawr gwlad lleol yng Nghymru wneud cais. Gellir cyflwyno ceisiadau ar unrhyw bryd ac asesir y cyfan yn y drefn y'u derbynnir.

Cyswllt: Pwyllgor Grantiau, Cadwch Gymru'n Daclus, 33-35 Cathedral Road, Caerdydd CF11 9HB
Ffôn: 02920 256767
tidy.towns@keepwalestidy.org
www.keepwalestidy.org

Ymddiriedolaeth Naturesave

Mae hwn yn cefnogi grwpiau amgylcheddol a chadwraeth yn y DU. Mae grantiau ar gael i ariannu prosiectau sy'n delio gyda phroblemau penodol amgylcheddol a/neu gadwraethol, ac sy'n hybu mabwysiadu masnachol datblygiad cynaliadwy. Mae grantiau dechreuol hefyd ar gael ar gyfer prosiectau ynni cynaliadwy.

Ceir grantiau bach rhwng £100 a £10,000; fodd bynnag y cyfartaledd yw tua £1,400.

Cyswllt: Ymddiriedolaeth Naturesave, 58, Fore Street, Totnes, Devon,
TQ9 5RU.
Ffôn: 01803 864390
Ffacs: 01803 864441
mail@naturesave.co.uk
www.naturesave.co.uk/trust_naturesave.html

Ymddiriedolaeth Dulverton

Mae hwn yn gwobrwyo grantiau i fudiadau elusennol yn y Du sy'n gweithio yn y meysydd canlynol: ieuenctid ac addysg; lles cyffredinol; cadwraeth; cadwedigaeth; heddwch a chefnogaeth ddyngarol; Affrica. Mae'n cynnig dau fath o grant:

- Mae prif grantiau heb uchafswm penodol ar gael i elusennau gydag incwm blynyddol yn is na £50miliwn sy'n gweithredu'n genedlaethol neu ar draws ardaloedd daearyddol y DU
- Mae grantiau llai hyd at £3,500 ar gael i elusennau llai gydag incwm blynyddol yn is na £400,000 sydd fel arfer yn gweithio ar lefel lleol neu sirol.

Cyswllt: Ymddiriedolaeth Dulverton, 5, St James Place, Llundain SW1A 1NP
Ffôn: 0207 629 9121
Ffacs: 0207 495 6201
trunst@dulverton.org
www.dulverton.org

Sefydliad Grantiau Bach Rufford

Mae hwn yn darparu grantiau i grwpiau bach ac unigolion yn Lloegr a Chymru sydd yn cymryd rhan mewn prosiectau cadwraeth natur yn y byd datblygedig. Mae yna bum categori: Grant Bach Rufford ar gyfer Cadwraeth Natur; Air Grant Bach Rufford ar gyfer Cadwraeth Natur; Grant Atgyfnerthu Rufford; Grant Parhau a Grant Cwblhau.

Cyswllt: Sefydliad Grantiau Bach Rufford, 6ed Llawr, 248 Tottenham Court Road, Llundain W1T 7QZ
Ffôn: 0207 436 8604
jane@rufford.org
www.ruffordsmallgrants.org

Cynllun Grant Ôl Troed Ecolegol

Mae'r cynllun yma yn ceisio annog defnydd helaethach o dechnegau ôl troed ecolegol a helpu lleihau ôl troed Cymru. Mae'n ceisio:

1. Cynyddu nifer y mudiadau yng Nghymru sy'n defnyddio'r technegau yma i roi gwybod am eu polisïau a'u rhaglenni;
2. Hyrwyddo dysgu ar y cyd ac adeiladu cynhwysol, a chynyddu dealltwriaeth ac ymrwymiad i ôl troed ecolegol o fewn a rhwng mudiadau;
3. Hyrwyddo ac annog rhannu ymarferion da;
4. Cefnogi rhwydwaith y rhai sy'n defnyddio technegau ôl troed ecolegol yng Nghymru.

Bydd grantiau hyd at 75% o gost y prosiect hyd at uchafswm o £5,000 y flwyddyn ar gael i fudiadau sy'n gwneud cais. Asesir y ceisiadau yn y drefn y'u derbynnir.**Cyswllt:**

Y Tîm Datblygu Cynaliadwy, Adran yr Amgylchedd, Cynaladwyedd a Thai, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.
sustainable.development@wales.gsi.gov.uk

Sefydliad Waterloo

Mae hwn yn rhoi grantiau i fudiadau yn y DU ac ar draws y byd am brosiectau sy'n helpu yn fyd-eang, yn enwedig mewn ardaloedd cyfoeth gwahanol a materion parthed hinsawdd. Gwobrwyir drwy bedwar rhaglen: Datblygiad Bydol; Datblygiad Plant; yr Amgylchedd; a Phrosiectau yng Nghymru.

Mae'r sefydliad yn awyddus i gefnogi mentrau a anelwyd at leihau newid hinsawdd a achoswyd gan ddyn, a chynyddu iechyd yr amgylchedd morol, yn y Du a thrwy'r byd. Ni nodir unrhyw uchafswm neu leiafswm. Fodd bynnag, annhebygol fyddai grantiau mwy na £100,000.

Cyswllt: Sefydliad Waterloo. 46-48 Cardiff Road, Llandaf, Caerdydd, CF5 2DT
info@waterloofoundation.org.uk
www.waterloofoundation.org.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.